# Atodiad 3 - Fframwaith Llywodraethu 2025

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein Fframwaith Llywodraethu ar gyfer 2025, sy’n amlinellu’r egwyddorion, y strwythurau a’r prosesau sy’n sicrhau trefn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd effeithiol. Ei nod yw meithrin tryloywder, uniondeb ac ymgysylltiad y gymuned yn ein holl weithgareddau.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym hefyd yn hapus i ddarparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille – gofynnwn i chi gysylltu â’r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

### Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid , neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

# Cynnwys

Atodiad 3 - Fframwaith Llywodraethu 2025 .... 1

Mae arnom eisiau clywed eich barn! .... 2

1. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu .... 5

2. Fframwaith Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy .... 5

3. Strwythurau a Chyfrifoldebau Llywodraethu .... 11

4. Partneriaethau .... 14

Atodiad 1 - Fframwaith Llywodraethu .... 17

Atodiad 2 - Trefniadau Gwleidyddol a Democrataidd .... 18

Atodiad 3 - Partneriaethau .... 19

# 1. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliannau a’r gwerthoedd sy’n cyfarwyddo ac yn ein rheoli fel sefydliad, a’r gweithgareddau rydym yn atebol i gymunedau drwyddynt, yn ymgysylltu â nhw a’u harwain. Mae’n ein galluogi i fonitro cyflawniad ein hamcanion strategol ac i ystyried a yw’r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a gwerth am arian.

Mae ein system reoli fewnol yn rhan arwyddocaol o’r fframwaith hwnnw ac mae wedi’i ddylunio i reoli risg i lefel resymol. Nid yw’n gallu dileu pob risg o ran methu â chyflawni polisïau a chyrraedd amcanion a nodau, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei ddarparu, yn hytrach na sicrwydd absoliwt o’i effeithiolrwydd. Mae’r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i nodi a blaenoriaethu’r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau hynny ac i’w rheoli mewn modd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae’r Fframwaith Llywodraethu wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r Adroddiad Hunanasesu Perfformiad (ein Hadroddiad Blynyddol) diwedd blwyddyn a’n Datganiad Cyfrifon.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod arferion rheoli ac egwyddorion llywodraethu da yn cael eu mabwysiadu ym mhob gweithgaredd busnes er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

# 2. Fframwaith Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliannau a’r gwerthoedd, sy’n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff llywodraeth leol ac a ddefnyddir er mwyn bod yn atebol dros gymunedau, ymgysylltu â nhw, a lle bo’n briodol, eu harwain. Dyma brif themâu ein dull llywodraethu a’r dogfennau a’r prosesau sy’n llunio’r fframwaith.

## 2.1. Themâu

- Ymddwyn gydag uniondeb
- Bod yn agored ac ymgysylltu
- Canlyniadau cynaliadwy sy’n canolbwyntio ar ddinasyddion
- Ymyriadau i gyflawni’r canlyniadau
- Datblygu gallu ac arweinyddiaeth
- Rheoli cyllid a risgiau

- Atebolrwydd a thryloywder

## 2.2. Dogfennau

Mae'r dogfennau allweddol sy'n cael eu hadolygu a'u cynhyrchu'n flynyddol yn cynnwys:

- Adroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad (bob chwe mis)
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Cyllid
- Polisi Diogelu Data (Mewnrwyd)
- Cynllun Rheoli Asedau (Mewnrwyd)
- Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol
- Dirprwyo gan y/i'r Cyfarwyddwyr
- Cynlluniau Gwasanaeth
- Protocol Archwilio Mewnol/Allanol
- Strategaeth Ddigidol Conwy (Mewnrwyd)
- Strategaeth Seibrgadernid (Mewnrwyd)
- Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth (Mewnrwyd)
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun Lwfansau Aelodau
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Datganiad Cyfrifon
- Cynlluniau Parhad Gwasanaeth

Mae'r dogfennau allweddol sy'n cael eu hadolygu a'u llunio ar hap yn cynnwys:

- Y Cynllun Corfforaethol (caiff ei adolygu bob blwyddyn drwy ein proses Hunanasesu)
- Strategaeth Gwrth-Dwyll (Mewnrwyd)
- Fframwaith Cynllunio Busnes
- Cod Ymddygiad
- Strategaeth Cynnwys y Gymuned.
- Strategaeth Gyfathrebu
- Strategaeth Gaffael Gorfforaethol (Mewnrwyd)
- Y Cyfansoddiad
- Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Mewnrwyd)

- Canllawiau Cwyno
- Conwy Gynhwysol(ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol)
- Rheoliadau Ariannol (Mewnrwyd)
- Polisïau Iechyd a Diogelwch (Mewnrwyd)
- Strategaeth Pobl
- Perthnasoedd Aelodau/Swyddogion
- Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth Swyddogion
- Canllawiau Gweithredu ar y Cyd (Mewnrwyd)
- Fframwaith Rheoli Perfformiad (Mewnrwyd)
- Cofnod o Benderfyniadau
- Polisi Rhannu Pryderon (Mewnrwyd)

## 2.3. Monitro Rheoleiddiol a Phrosesau

Mae'r prosesau a'r trefniadau monitro rheoleiddiol canlynol ar waith:

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datganiadau Atebolrwydd Cyllideb
- Y Fewnrwyd Gorfforaethol
- Cynlluniau Dysgu a Datblygu (Mewnrwyd)
- Pwyllgor Safonau
- Gwybodaeth am Dreth y Cyngor
- Proses Adborth Cwsmeriaid
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Adran 151)
- Swyddog Monitro
- Diogelu Data (Mewnrwyd)
- Fforymau Budd-ddeiliaid
- Rhyddid Gwybodaeth
- Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Adroddiadau Arolygiaeth
- Archwilio Allanol
- Archwilio Mewnol.
- Swydd-ddisgrifiadau

- Proses Gwerthuso Swyddi
- Y Gyfraith a Llywodraethu
- Datblygu a Chyflwyno Aelodau
- Fforwm Rheolwyr
- Sgwrs Conwy (Mewnol)
- Cynlluniau Gwaith cyfunol y Cyngor a Phwyllgorau
- Grŵp Gwella ac Archwilio
- Grŵp Adolygu Adroddiadau
- Grŵp Monitro Cyfalaf
- Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
- Y Broses Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Pwyllgorau Craffu
- Cynefino staff
- Arolygon staff
- Tîm Arwain Strategol
- Uwch Dîm Rheoli
- Cynllun dirprwyo
- Y we a chyfryngau cymdeithasol
- Polisi Diogelu

## 2.4. Ein Blaenoriaethau Strategol

Rhwng 2024 a 2025 fe wnaethom adolygu Nodau ein Cynllun Corfforaethol, gan roi mwy o bwyslais ar yr angen i'r sefydliad cyfan weithio tuag at wytnwch ariannol gwell. Os na wnawn ni flaenoriaethu gwytnwch ariannol, ni fydd y Cyngor yn gallu cynnal y gwasanaethau hanfodol y mae ein cymunedau ac unigolion yn dibynnu arnynt, a bydd ein gallu i gyflawni ein Hamcanion Lles yn dibynnu ar ein llwyddiant yn y maes hwn. Ein Nodau diwygiedig yw:

1. Cyngor Gwydn
2. Yr Amgylchedd
3. Ffyniant a Dysg
4. Tai
5. Lles

Gellir gweld ein cynllun diwygiedig ar ein gwefan yn: https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/CorporatePlan/Home.aspx.

Wrth adolygu ein Cynllun Corfforaethol, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ystyried yr egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol sy'n sail i'n holl waith.

### 2.4.1. Ein Hegwyddorion

- **Y Gymraeg** Ein nod yw meithrin cymuned ddwyieithog ble siaradir y Gymraeg yn hyderus mewn teuluoedd, gweithleoedd a chymunedau, gan ddathlu diwylliant a threftadaeth Cymru. Rydym yn annog pawb i ymuno â ni i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, waeth pa mor rhugl ydynt, i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- **Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant:** Mae ein Strategaeth Conwy Gynhwysol yn canolbwyntio ar greu cymdeithas groesawgar a chynhwysol, sy'n hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar y cyd ymhlith staff i wella tegwch, cynhwysiant a thryloywder wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogaeth.

- **Gweithio gyda Chymunedau:** Nod ein Strategaeth Cynnwys y Gymuned yw sicrhau bod llais cymunedau'n cael eu clywed a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Rydym yn ymdrechu i feithrin rhwydweithiau cymunedol cryf yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, gan ddefnyddio egwyddorion cyfathrebu clir a hygyrch i ymgysylltu'n weithredol â phreswylwyr.

O'u cyfuno â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, bydd yr egwyddorion a'r gwerthoedd hyn yn cefnogi'r ethos rydym yn falch ohoni a'n gweledigaeth o Gonwy fel **sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**.

### 2.4.2 Ein Gwerthoedd

Fe wnaethom fanteisio ar y cyfle yn ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig i gadarnhau ein hymrwymiad i'n gwerthoedd fel sefydliad hefyd. Maent yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio, yn ymddwyn ac yn darparu gwasanaethau.

1. Rydym yn **ymfalchïo** yn ein gwaith.

2. Rydym yn **deg** â phawb.
3. Rydym yn **arloesol.**
4. Rydym yn **gweithio fel tîm.**

## 2.5. Ein Hymrwymiad i Lywodraethu Da

I ddangos ein hymrwymiad i lywodraethu da rydym wedi amlinellu'r ymrwymiadau rydym yn cadw atynt, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn, mewn modd agored, gonest ac atebol. Byddwn yn:

- Nodi ein hamcanion yn glir yn ein Cynllun Corfforaethol.
- Mesur pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau ac yn cymryd camau i'w gwella. Cyhoeddi gwybodaeth yn dangos sut yr ydym yn symud i gyflawni ein hamcanion yn ein Hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad bob chwe mis.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i wella gwasanaethau ar gyfer Conwy.
- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y defnydd gorau o arian y trethdalwyr drwy wneud penderfyniadau ariannol gofalus.
- Nodi yn ein Cyfansoddiad pwy sy'n gallu gwneud pa benderfyniadau.
- Ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd a safonau uchel o ran ymddygiad.
- Sicrhau bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn cael mynediad at wybodaeth gywir i'w helpu i wneud penderfyniadau er budd pennaf pobl Conwy.
- Cofnodi a chyhoeddi'r penderfyniadau a wnawn a'r rhesymau dros wneud y penderfyniadau hynny. Pan fo'n bosibl, byddwn yn gwneud y penderfyniadau pwysicaf yn gyhoeddus.
- Craffu ar ein gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod nhw'n bodloni anghenion ein preswylwyr.
- Byddwn yn sensitif am sut byddwn yn casglu a chofnodi gwybodaeth bersonol ac yn ei diogelu rhag unrhyw gamddefnydd.

Bob blwyddyn, rydym yn hunanasesu sut rydym yn bodloni ein safonau llywodraethu ac yn cofnodi hyn yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae ein harchwilwyr allanol yn cynnal adolygiad blynyddol o'r datganiad.

## 3. Strwythurau a Chyfrifoldebau Llywodraethu

Mae'r cyrff a'r strwythurau canlynol yn cyflawni rôl bwysig o ran adolygu a sicrhau effeithiolrwydd llywodraethu.

### 3.1. Y Cyngor

Y Cyngor (pob un o'r 55 Cynghorydd) sy'n gosod y gyllideb a'r polisïau cyffredinol. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, lle trafodir y gwahanol ddewisiadau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Y Cyngor sy'n penodi Arweinydd y Cyngor; yna mae'r Arweinydd yn penodi Aelodau eraill y Cabinet, ac yn clustnodi cyfrifoldebau (portffolios) i aelodau Cabinet.

### 3.2. Cadeirydd y Cyngor

Y Cadeirydd yw arweinydd seremonïol y Cyngor. Mae'n cadeirio'r drafodaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Cyngor sy'n pleidleisio i enwebu aelod ar gyfer y swydd.

### 3.3. Yr Arweinydd

Mae'n arwain y Cyngor a'i weinyddiaeth wleidyddol. Mae gan yr Arweinydd gyfrifoldeb cyffredinol am reolaeth wleidyddol yr awdurdod a chyflawni blaenoriaethau, strategaethau a pholisïau'r Cyngor y cytunwyd arnynt. Yr Arweinydd sy'n penodi'r Cabinet ac yn clustnodi portffolios.

### 3.4. Cabinet

Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau allweddol, er y gall hefyd ddirprwyo penderfyniadau i Aelodau Cabinet unigol, pwyllgorau, swyddogion, trefniadau ar y cyd neu awdurdodau eraill. Mae gan y Cabinet 10 o aelodau, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor ac mae gan bob Aelod feysydd cyfrifoldeb neu bortffolios gwahanol. Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn rheolaidd unwaith neu ddwywaith y mis.

### 3.5. Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhoi cyngor ar bolisïau ac yn dwyn y Cabinet i gyfrif ar faterion penodol. Gall y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd adolygu meysydd gweithgarwch y Cyngor neu faterion o bryder lleol ehangach. Mae 4 pwyllgor trosolwg a

chraffu sy'n cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Y 3 pwyllgor arall yw: Economi a Lle; Addysg a Sgiliau; Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

## 3.6. Grwpiau Tasg a Gorffen

Gellir sefydlu grwpiau i ymgymryd â darnau penodol o waith, o fewn terfyn amser a chwmpas - naill ai llunio polisïau neu adolygiadau craffu. Mae'r rhain yn gwneud gwaith manwl ac yn fwy anffurfiol.

## 3.7. Pwyllgorau Eraill (Rheoleiddio a Safonau)

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bwyllgor statudol sy'n darparu sicrwydd annibynnol ar ein hamgylchedd rheoli mewnol. Caiff ei gadeirio gan aelod lleyg. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol; yn goruchwylio annibyniaeth ac effeithiolrwydd Archwilio Mewnol; monitro effeithiolrwydd trefniadau gwerth am arian; ystyried effeithiolrwydd rheoli risg, gan gynnwys risgiau llwgrwobrwyo, twyll a llygru ac yn ystyried adroddiadau Archwilio Allanol a'r Arolygwyr.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Trwyddedu hefyd yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio ar ran y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad a chefnogi cynghorwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

## 3.8. Prif Swyddog Gweithredol

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb rheoli a gweithredu cyffredinol am y sefydliad (gan gynnwys cyfrifoldeb rheoli cyffredinol am weithwyr). Mae'n cynnig cyngor proffesiynol i bawb yn y broses gwneud penderfyniadau, a system gofnodi ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Y Prif Weithredwr sy'n penderfynu sut y mae swyddogaethau yn cael eu cyflawni a sut y caiff swyddogion eu trefnu.

## 3.9. Prif Swyddog Ariannol (Adran 151)

Y Prif Swyddog Ariannol sy'n gyfrifol am weinyddu ein materion ariannol yn briodol, yn unol â gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ac yn cael eu hymgorffori yn y sefydliad.

## 3.10. Swyddog Monitro

Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig.

## 3.11. Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae'n cynnig barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu. Mae'n cyflawni rhaglen o archwiliadau ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau.

## 3.12. Y Tîm Arwain Strategol

Mae gan y Tîm Arwain Strategol rôl fwy strategol / tactegol. Mae'n cynnwys aelodau o'r Cabinet/ Uwch Dîm Rheoli/ Penaethiaid Gwasanaeth unigol ac mae'n:

- Ymdrin â phryderon a materion a godir gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Pennaeth Pobl a Pherfformiad, Pennaeth Statudol Addysg a Phennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.
- Ystyried adroddiadau'n ymwneud â digwyddiadau niweidiol (gan gynnwys twyll ac iechyd a diogelwch).
- Adolygu materion sy'n deillio o'n byrddau rhaglen.
- Ystyried ceisiadau grant.
- Adolygu swyddi newydd a mân achosion o ailstrwythuro sy'n cynnwys llai na 10 aelod o staff.
- Derbyn gwybodaeth yn ymwneud ag archwiliadau a pherfformiad - gwybodaeth gan y Grŵp Gwella ac Archwilio cyn cyflwyno i'r UDRh.
- Adolygu Rhaglenni'r UDRh.

## 3.13. Yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh)

Yr UDRh yw prif dîm rheoli ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Mae'r UDRh yn gyfrifol am lunio, cynnal a gweithredu ein fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth. Mae'r UDRh yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol a llywodraethu effeithiol y Cyngor.

### 3.14. Archwilio Mewnol

Mae'n cynnig barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu. Mae'n darparu rhaglen o archwiliadau ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau.

### 3.15. Grŵp Gwella ac Archwilio

Mae'n darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, monitro adroddiadau rheoleiddio allanol ac adolygu risgiau.

### 3.16. Archwilio Allanol

Archwilio ein datganiadau ariannol ac adrodd yn eu cylch (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), gan roi barn ar y cyfrifon a'r defnydd o'r adnoddau a dod i gasgliad ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau y defnyddir adnoddau'n gynnil, effeithlon ac effeithiol.

## 4. Partneriaethau

Mae gan y cyrff a strwythurau canlynol rôl bwysig i ofalu am anghenion pobl yn eu hardal a'u cefnogi.

### 4.1. Grwpiau Rhanbarthol

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (statudol). Cefnogir y Bwrdd hwn gan ddwy bartneriaeth ffurfiol amlasiantaethol: 1. Grŵp Arweinyddiaeth. 2. Gwasanaethau Cymdeithasol y Gogledd.
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol).
- Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (Statudol), yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Cludiant Rhanbarthol. Hefyd, mae ganddynt gyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol). Fe'i cefnogir gan Grŵp Sgiliau Rhanbarthol a Grŵp Adfywio Gogledd Cymru.
- Trefniadau Cydweithio Awdurdodau Lleol (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol). Mae hyn yn cynnwys Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru; Galw Gofal (Gwasanaeth Teleofal Rhanbarthol); Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru; Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc yng

Ngogledd Cymru; Cynllunio Rhag Argyfwng; Parcio; Cynllunio Mwynau a Gwastraff; a'r Asiantaeth Briffyrdd.

- Trefniadau Cydweithio rhwng Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol) Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol; a Chyfarpar Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru.
- Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE) (Awdurdod Lleol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru).
- Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol).
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol).
- Byrddau Herio.

## 4.2. Grwpiau Is-Ranbarthol

Mae 3 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, sy'n gyrff statudol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

## 4.3. Partneriaethau Lleol Conwy

- Grŵp Gweithredu Lleol Conwy (statudol)
- Partneriaeth Pobl Conwy (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)
- Partneriaeth Strategol Tai Conwy (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)
- Partneriaeth Trydydd Sector (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)
- Grŵp Rheoli Cyrchfan (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)

## 4.4. Cydbartneriaethau lleol Conwy a Sir Ddinbych

- Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid (statudol)
- Grŵp Darparu Diogelu Plant (statudol)
- Grŵp Darparu Diogelu Oedolion (statudol)
- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (statudol)

- Y Bwrdd Gwasanaethau Integredig (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)
- Tîm Gweithredu Lleol (partneriaeth ffurfiol amlasiantaethol)

# Atodiad 1 - Fframwaith Llywodraethu

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus ac a ddefnyddir er mwyn bod yn atebol dros gymunedau, ymgysylltu â nhw, a lle bo'n briodol, eu harwain.

| Ymddwyn gydag Uniondeb | Didwylledd ac Ymgysylltu | Canlyniadau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar | Ymyriadau i gyflawni'r canlyniadau | Datblygu Gallu ac Arweinyddiaeth | Rheoli Cyllid a Risgiau | Atebolrwydd a Thryloywder |
|---|---|---|---|---|---|---|

**Dogfennau Allweddol: Adolygiad Blynyddol / Cynhyrchu**

- Hunanasesu Perfformiad
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Cyllid
- Polisi Diogelu Data (Mewnrwyd)
- Cynllun Rheoli Asedau (Mewnrwyd)
- Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol
- Dirprwyo gan y/i'r Cyfarwyddwyr
- Cynlluniau Gwasanaeth
- Protocol Archwilio Mewnol/Allanol
- Strategaeth Ddigidol Conwy (Mewnrwyd)
- Strategaeth Seibrgadernid (Mewnrwyd)
- Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun Lwfansau Aelodau
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Datganiad Cyfrifon
- Cynlluniau Parhad Gwasanaeth

**Dogfennau Allweddol: Adolygiad Ad-hoc / Cynhyrchu**

- Y Cynllun Corfforaethol
- Strategaeth Gwrth-Dwyll (Mewnrwyd)
- Fframwaith Cynllunio Busnes (Mewnrwyd)
- Cod Ymddygiad
- Strategaeth Cynnwys y Gymuned.
- Strategaeth Gyfathrebu
- Y Cyfansoddiad
- Strategaeth Gaffael Gorfforaethol (Mewnrwyd)
- Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Mewnrwyd)
- Canllawiau Cwyno
- Cynllun Conwy Gynhwysol
- Rheoliadau Ariannol
- Polisïau Iechyd a Diogelwch (Mewnrwyd)
- Strategaeth Pobl
- Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth Swyddogion
- Canllawiau Gweithredu ar y Cyd (Mewnrwyd)
- Fframwaith Rheoli Perfformiad


**Monitro Rheoleiddiol / Prosesau**

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Datganiadau Atebolrwydd
Cyllideb
Y Fewnrwyd Gorfforaethol

Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol (Mewnrwyd)
Pwyllgor Safonau
Gwybodaeth am Dreth y Cyngor
Proses Adborth Cwsmeriaid
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Diogelu Data (Mewnrwyd)
Fforymau Budd-ddeiliaid
Rhyddid Gwybodaeth
Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Y Gyfraith a Llywodraethu
Datblygu a Chyflwyno
Aelodau
Swyddog Monitro
Fforwm Rheolwyr
Sgwrs Conwy
Rhaglen Waith Gyfun
Cyfarfodydd y Cyngor
Grŵp Gwella ac Archwilio
Grŵp Adolygu Adroddiadau
Grŵp Monitro Cyfalaf
Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
Proses Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
Pwyllgorau Craffu
Cynefino staff
Arolygon staff
Tîm Arwain Strategol
Uwch Dîm Rheoli
Cynllun dirprwyo
Y we a chyfryngau cymdeithasol

# Atodiad 2 - Trefniadau Gwleidyddol a Democrataidd



# Atodiad 3 - Partneriaethau

